CAI – ARWR, GOFALUS

Ac yntau ychydig dros ei un
A heb fod yn sád iawn ar ei draed,
Sut y mae rhywun fel hyn
Yn mynd, meddech chwi, i ymosod ar gath –
Hyd yn oed un hynod hynafol
A diffygiol ei chyneddfau?

Wel, buddiol ydyw, i ddechrau, ymarfogi â brws,
Un ysgafn plastig, ond digon hirgoes
I chwi fod yn ymosodol ag o – o bell.
Yna ewch i nôl eich Nain
A chydiwch yn un o'i bysedd yn dynn
A chyfeiriwch ei chamre tuag at y gath.
A phan ydych chwi yna o fewn cyrraedd i Pws
Rhowch iddi hi bwniad â blaen eich brws.

Ond os ydi honno yn dangos unrhyw osgo
At godi a dynesu atoch chwi
Rhowch eich brws yn ei ôl mewn rhyw wain –
Fel y gwna pob marchog cyfrifol –
Ac enciliwch, da chwi, pronto,
I fangre ddiogel y tu ôl i'ch Nain.